Dinefwr Enterprise Co Ltd	Leonard Cheshire Foundation - Shropshire	North Wales Association for Spina Bifida & Hydrocephalus
Diocese of Llandaff Council for Social Responsibility	Llamau Housing Society	North Wales Christian Family Project, Stepping Stones
Disabled Drivers Association - Merthyr Tydfil	Llandrindod Wells SPA Foundation	North Wales Resource Centre for Disabled People
Disablement Welfare Rights - Bangor	Llanelli Centre Project	Nutcracker Children's Trust
Dolen Cymru	Llanelli Crossroads Care	Offa Community Council - Wrexham
Drama Association of Wales	Llanelli & Dinefwr Community Health Council	Ogwr Care & Repair
Drive - Mid Glamorgan	Llanelli Youth & Childrens Association	Ogwr Community Health Council
Drug Aid - Cardiff	Llanishen Good Neighbours	Ogwr Drug & Alcohol Self Help
Dyfed Alcohol Advisory Service	Llanrumney Community Project (NCH)	Ogwr Groundwork Trust
Dyfed Social Services - Aberaeron	Llanwrtyd Wells Telecottage	Ogwr MIND
Dyfed Wildlife Trust	Lliw Valley Women's Aid	Ogwr Single Homeless Action Committee
Elite Supported Employment Agency	Magic - Bridgend	Old Barn Family Centre - Abergavenny
Ely Home-Start	Mencap in Wales, Carmarthen and Dinefwr	Open University in Wales
Ely Hospital, Voluntary Services Department	Mencap in Wales, Rhondda Vanguard Office	Opportunity Housing Trust
Eurobase, Royal Welsh Showground	Menter Hiraethog - Pentrefoelas	Palmerston Community Education Centre
Eye Level Photographic	Merthyr Alcohol and Advice Counselling Service	Pembrokeshire MIND
Fairbridge	Merthyr Care & Repair	Pembrokeshire Opportunities Initiative Project (Mencap in Wales)
Family Planning Association	Merthyr & Cynon Groundwork	Pengwern Further Education College (Mencap)
Felin Fach Centre	Merthyr MIND	Penygraig Community Project
First Choice Housing Association	Merthyr Safer Cities	People & Work Unit - Abergavenny
Foreign & Commonwealth Office	Mid Glamorgan Citizen Advocacy - Pontypridd	Planning Aid Wales
Forest of Cardiff	Mid Glamorgan County Forum - Rhondda	Pontypool MIND
Gabalfa Community Workshop	Mid Glamorgan Health Authority	Pontypridd Citizens Advice Bureau
Galon Uchaf Residents Board - Merthyr Tydfil	Mid-Rhondda Tenants Association	
Gingerbread in Wales - Swansea	Montgomeryshire Citizen Advocacy	
Glamorgan Federation of Women's Institutes	Montgomeryshire Women's Aid	
Glyntaff Tenants & Residents Association - Pontypridd	Motor Neurone Disease Association MSF	
Gofal Housing Trust	NACRO NCT - Abergavenny	
Growing Space	NACRO NCT - Barry	
The Guiding Hand Association	NACRO NCT - Merthyr Tydfil	
Gwent College of Higher Education	NACRO Housing - South Wales	
Gwynedd Hospice at Home		



- Pontypridd Housing Association  
Pontypridd Volunteer Bureau  
Port Talbot & Afan Single Homeless Society  
Powys AIDS Line  
Powys Challenge  
Powys County Council - Chief Executive's Department  
Powys County Council - Community Department  
Powys Victim Support  
Powys Health Authority  
Presbyterian Church of Wales Youth Service  
Prince of Wales Committee - Mold  
Prince of Wales Committee - Newtown  
Prince's Trust Volunteers  
Prince's Youth Business Trust  
Radnor Care & Repair  
Radnor Support Project  
Ramblers' Association  
Raven House Trust  
Relate Dyfed  
Relate North Wales  
Relate South Wales  
Resolv: The Society for the Prevention of Solvent and Volatile Substances Abuse  
Rhayader & District Community Support  
Rhondda Community Arts  
Rhymney Valley Community Health Council  
Rhymney Valley Home-Start  
Rhymney Valley Social Services  
Rhymney Valley Women's Aid  
Royal Society for the Protection of Birds  
Rumney Good Neighbours  
Save the Children Fund - Cynon Valley Project  
Scope - Wales Regional Office  
Scope - Colwyn Bay  
Sense Cymru  
Sequal  
Somali Advice and Information Centre - Cardiff  
South Glamorgan Alzheimers Disease Society  
South Glamorgan County Council, Ely Community Enterprise Workshops  
South Glamorgan County Libraries  
South Glamorgan Crossroads Care  
South Glamorgan Play Services Association  
South Glamorgan Playbus Association  
South Glamorgan Probation Services  
South Glamorgan Women's Workshop  
South Pembrokeshire Partnership for Action with Rural Communities  
South Rhymney Community Mental Health Team  
South Riverside Community Development Centre - Cardiff  
South Wales Convalescent & Rest Home  
South Wales Federated Housing Association Ltd  
South Wales Miners' Library  
Special Needs Housing Advisory Service in Wales  
Specialist Money Advice Bureau - Cardiff  
St Briavels Centre for Child Development  
St David's Foundation - Newport  
Staying Put Agency - South Pembrokeshire  
Streets Project - Ammanford  
Swansea Citizens Advice Bureau  
Swansea City Council, Housing Department  
Swansea & Lliw Valley Crime Prevention Panel  
Swansea Drugs Project  
Swansea MIND  
Swansea Student Community Action  
Swansea Womens Resource & Training Centre  
Swansea Young Single Homeless Project  
Switch - Bridgend  
Taff Ely Drug Support Group  
Teen Challenge UK  
Telecottages Wales  
Tenants Participation Advisory Service (Wales)  
Tenovus  
Tenovus Cancer Information Centre  
Teulu'r Ynys Co Ltd  
Tirion Trust Ltd  
Torfaen Citizen Advocacy  
Torfaen Community Transport & Dial-A-Ride Scheme  
Torfaen Women's Aid  
Transport & General Workers Union Retired Members Association  
Trust for Sick Children in Wales  
Ty Glyn Housing Society, Cardiff  
United Nations Association, International Youth Service  
United Welsh Housing Association  
University of Wales, College of Cardiff Library  
Unllais - Bangor  
Urban Regeneration Project  
Vale of Clwyd MIND - Denbigh  
Vale of Clwyd MIND - Rhyl  
Valley Arts Marketing  
Valley & Vale Community Arts  
Valley Women's Roadshow  
Valleys' Initiative for Adult Education  
Viva Project, Rhondda  
Voluntary Community Service - Cardiff  
Volunteer Centre UK  
Wales & West Housing Association  
Wales Youth Agency  
The Wallich Clifford Community - Cardiff  
Welsh Agricultural College, Joint Library  
Welsh Centre for Learning Disabilities  
Welsh Initiative for Conductive Education  
Welsh Office, Library  
Welsh Tenants Federation  
Welsh Water IT Services  
Welsh Women's Aid - Aberystwyth  
West Glamorgan Community Education  
West Glamorgan Forum  
Workers Education Trust  
WRAP (Wrexham Advocacy Partnerships)  
Wrexham Hospice & Cancer Support Centre  
Wrexham Maelor Community Agency  
Wrexham Maelor Groundwork Trust  
Wrexham Maelor Home-Start  
Young Families Centre - Swansea  
Youthlink Wales



# Adroddiad blynyddol CGGC

1994-1995



60 MLYNEDD O LWYDDIANT

CYNGOR  
GWEITHREDU  
GWIRFODDOL  
CYMRU



WALES  
COUNCIL FOR  
VOLUNTARY  
ACTION



*Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yw'r corff sy'n cynrychioli buddiannau elusennau, grwpiau gwirfoddol a gwirfoddolwyr yng Nghymru.*

*Mae'r Cyngor, a sefydlwyd chwe deg o flynyddoedd yn ôl ym 1934 yn ystod y dirwasgiad i gefnogi gwaith clybiau newydd y dynion, yn cynrychioli buddiannau pob math o weithgarwch gwirfoddol erbyn hyn, o grwpiau gofal cymdeithasol i grwpiau amgylcheddol, iechyd a chelfyddydol.*

*Fel elusen annibynnol, mae gan CGGC 482 o aelodau o bob cwr o Gymru. Ei nod yw cefnogi a chynrychioli buddiannau ei aelodau a'r sector wirfoddol trwy lobïo, cynrychioli, denu arian a darparu amrywiaeth o wasanaethau fel hyfforddiant a chynghor ynghylch ariannu.*

*Mae gan CGGC ddau ddeg a thri o staff yn gweithio yn ei dair swyddfa yng Nghaerffili, y Trallwng a Llandudno.*

## **Aelodaeth**

Mae CGGC yn elusen annibynnol. Ymunwch â ni ac fe fyddwch yn derbyn ein cylchgrawn misol sy'n cynnwys newyddion a barn y sector wirfoddol, cylchlythyrau ynghylch cyfarfodydd, cyrsiau hyfforddi a chyhoeddiadau newydd, gostyngiadau ar rai cyrsiau a chynadleddau yn ogystal a blaenoriaeth ar gyfer rhai gwasanaethau gwybodaeth a chynghori.

Mae aelodaeth lawn yn agored i fudiadau gwirfoddol cenedlaethol, rhanbarthol ac 'ymbarel' ac i unrhyw fudiad gwirfoddol nad yw'n cael ei gynrychioli ar y lefel hon. Bob blwyddyn mae aelodau llawn yn ethol y Pwyllgor Gweithredol sy'n rhedeg y mudiad.

Mae aelodaeth gysylltiol yn agored i fudiadau lleol, canghennau o fudiadau gwirfoddol cenedlaethol, asiantaethau statudol a phreifat ac unigolion.

Ceir manylion ynghylch ffioedd a ffurflenni cais yn swyddfa Caerffili.

### **Swyddfa Gofrestredig - Prif Swyddfa**

Llys Ifor  
Heol Crescent  
Caerffili  
Morgannwg Ganol CF8 1XL  
ffôn 01222 869224  
ffacs 01222 860627

### **Swyddfa Gogledd Cymru**

Tŷ Tyldesley  
Ffordd Clarence  
Craig-y-Don  
Llandudno  
Gwynedd LL30 1DT  
ffôn 01492 871833  
ffacs 01492 871288

### **Swyddfa Ewropeaidd**

Tŷ Lon-y-Parc  
7 Stryd Fawr  
Y Trallwng  
Powys SY21 7JP  
ffôn 01938 552379  
ffacs 01938 552092





## Rhagair y cadeirydd

**Dyna i chi flwyddyn i'w chofio - blwyddyn o ddathliadau, newidiadau a siakensau.**

Dathlu fod CCGC wedi cyrraedd ei 60fed penblwydd, a bod ganddo le cydnabyddedig yn mywyd Cymru. Bu estyn ein prif swyddfa yng Nghaerfili a datblygu gwasanaethau ehangach ym mhob maes yn arwydd o hyder y mudiad.

Bu newid ym mhattrwm y gwasanaethau i'r gymuned; cafodd hyn effaith ar bob un ohonom ac mae mwy o newidiadau i ddod. Mae CCGC wedi ceisio bod yn sensitif i anghenion a dyheadau'r sector, tra'n bod yn ddigon hyblyg i addasu iddynt.

Dilynodd y siakensau yn dynn ar sodlau'r newidiadau: sut i wneud yn siwr fod pobl Cymru'n cydnabod CCGC fel rhan o'u bywyd cymdeithasol a diwylliannol - nid fel rhywbeth ymylol ond fel mudiad bywiog, perthnasol ac effeithiol sy'n hybu dealltwriaeth pobl o amgylchedd cymhleth y degawd hwn, a'u cynorthwyo i gymryd rhan ynddo.

Hoffwn ddiolch yn fawr i bawb - yn aelodau, staff a chyfeillion a ymunodd â ni yn yr ymdrechion hyn, yn ystod blwyddyn arbennig dathlu'n jiwibili diamwnt.

*Marjorie Dykins*

Marjorie Dykins



## Adroddiad y cyfarwyddwr

**Bu'r flwyddyn yn ddiwedd un cyfnod a dechrau cyfnod newydd. Mae'r rôl y bu'r Swyddfa Gymreig, awdurdodau lleol ac iechyd a chwangos eraill yn ei chwarae dros y deng mlynedd diwethaf wrthi'n cael ei had-drefnu.**



Mae'r drefn newydd wedi'i sefydlu erbyn hyn, ond ni ddaw ei heffaith lawn ar fudiadau gwirfoddol yn eglur am rai blynyddoedd i ddod.

Mae newid mor eang â hyn yn achosi pryder a gofid. Bu CCGC yn flaenllaw yn y gwaith o sicrhau fod y sector wirfoddol ar agenda'r drefn newydd ac o greu gweledigaeth realistig o'r dyfodol, trwy gyfrwng ei fentrau *Anelu at Amcanion Cyffredin a Partneriaid mewn Iechyd*.

Mewn datblygiad arall, mae cyfnod newydd ar fin cychwyn yn sgîl lansio'r Loteri Cenedlaethol yn gynharach yn y flwyddyn. Bydd hyn yn ffynhonnell arian newydd ar gyfer mudiadau gwirfoddol, ond bydd rhai yn colli allan wrth i bobl newid eu ffordd o roi i elusennau.

Unwaith eto mae CCGC yn arwain y ffordd trwy lobio, darparu gwybodaeth, ymchwilio a chynorthwyo'r fenter newydd hon er mwyn sicrhau bod mudiadau gwirfoddol yng Nghymru'n cael y fargen orau bosibl. Bu ar flaen y gad hefyd o ran galw am iawndal i'r rhai fydd yn colli fwyaf.

Thema arall yn ystod y flwyddyn fu cydnabod rôl y gwirfoddolwr ac, unwaith eto, mae CCGC wedi bod yn weithgar gyda'i raglen hyfforddi ymddiriedolwyr. Mae hefyd wedi datblygu'i strategaeth gwirfoddol ei hun yng Nghymru, a fydd yn gweithredu syniadau tim Make a Difference y llywodraeth.

Yn ystod y flwyddyn mae CCGC wedi ceisio rhoi arweiniad strategol cryf, a siarad ar ran grwpiau gwirfoddol a gwirfoddolwyr yng Nghymru gyda llais clir ac uchel ei barch. Mae'r llais hwn yn hanfodol bwysig mewn cyfnod o ansicrwydd a newid. Mae CCGC yn cryfhau'r llais hwnnw, a bydd yn parhau i wneud hynny trwy gryfhau ei gysylltiadau gyda'i aelodau, sicrhau mwy o sylw yn y cyfryngau, cynyddu ymwybyddiaeth o'i waith ac ehangu ei gysylltiadau gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar bob lefel.

Ni fyddai gwaith CCGC yn bosibl heb gymorth ei nifer cynyddol o aelodau, sy'n rhoi eu hamser i gynnal y gweithgareddau yn rhad ac am ddim a'r nifer o ymddiriedolaethau ac asiantaethau'r llywodraeth sydd wedi cyfrannu at ei adnoddau.

Diolch yn fawr.

*G Benfield*  
Graham Benfield



# Edrych yn ôl dros chwe deg mlynedd o lwyddiant

## CGGC yn ...

### Y Tridegau

Gosododd diweithdra aruthrol y tridegau cynnar y seiliau ar gyfer lansio Cyngor

Gwasanaeth Cymdeithasol De

Cymru a Mynwy ym mis Chwefror 1934 - a ddaeth yn ddiweddarach yn Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Flocws y gwaith oedd cynorthwyo'r canolfannau a'r clybiau galwedigaethol i ddynion diwaith a oedd yn ymddangos ar hyd a lled y cymoedd ar yr adeg honno. Eu nod uchelgeisiol oedd "cydgysylltu gwaith yr holl asiantaethau presenol sy'n cyfrannu tuag at anghenion diwylliannol, gyrfaol, corfforol a hamdden oedolion a phobl ifanc De Cymru." (Adroddiad blynyddol 1934-5)

Roedd hyn yn cynnwys gwaith ym meysydd iechyd (roedd nyrs yn costio £100 y flwyddyn), llyfrgelloedd y cymoedd, cynlluniau cydweithredol i dyrchu glo mynydd a hyd yn oed dosbarthiadau 'cadw'n heini' i fenywod.

### Y Pedwardegau

"Un o effeithiau pwysig y rhyfel, gyda'i fyrded rheolau a rheoliadau, fu'r cynnydd mewn problemau a phryderon personol nad oes ateb parod iddynt ..."

(Adroddiad blynyddol 1940)

Ynghyd a gwaith arall yn ymwneud a'r rhyfel, sefydlodd y Cyngor saith deg o Ganolfannau Cyngori yn yr ardal, gyda chymorth grant gan y llywodraeth, i gynorthwyo i ddelio a'r problemau y cyfeirwyd atynt uchod.

Dilynodd y wladwriaeth les yn dynn ar sodlau heddwch, ac roedd rhai yn pryderu y byddai darpariaeth gan y wladwriaeth yn "mygu gweithgaredd gwirfoddol". Ond diflannodd yr ofn hwn wrth i'r sector ehangu i gyfeiriadau newydd. Ym 1946 ehangodd y Cyngor ei waith i gynnwys Cymru gyfan a dechreuodd ymwneud fwyfwy ym mhopeth o ffoadurion i waith crefftau.



### Y Pumdegau

Erbyn dechrau'r pumdegau roedd gweithgareddau'r Cyngor yn amrywiol dros ben, gan gynnwys cymorth i'r henoced a'r ifainc, addysg i oedolion, canolfannau cymunedol a neuaddau pentref, a hyd yn oed cerddoriaeth a drama. Ac roedd y rhain i gyd yn "annog a chydgyssylltu ymdrechion cymdeithasol yn y dref a chefn gwlad".

Rhoddydd mwy o bwyslais ar gefn gwlad wrth i'r Cyngor ddechrau ymdrin a materion y gymuned wledig, gan weithio gyda Chynghorion Cymuned Gwledig ar "broblem ganolog cefn gwlad Cymru heddiw - problem dibollogi". adroddiad blynyddol 1952.

Gwelwyd dirywiad Clybiau'r Dynion ar gyfer y diwaith yn ystod y degawd hwn - ond roedd Clybiau'r Menywod yn ffynnu, ar y llaw arall, gydag oddeutu 110 ohonynt "yn cael eu gwasanaethu gan

bum hyfforddwrraig gwaith llaw a dwy hyfforddwrraig crefftau cartref llawn amser".

(Adroddiad blynyddol 1959-60)







## Y Chwedegau

Yn ystod 'degawd yr ifainc'

**60** roedd y Cyngor yn canolbwyntio fwyfwy ar yr henoed, gan benodi ei swyddog llawn amser cyntaf i

ddelio gyda gweinyddiaeth

"Pwyllgor Gofal yr

Henoed yng Nghymru". Bu'r

Cyngor yn gorchwilio gwaith y

pwyllgor hwn ers 1947. Yn ddiweddarach daeth y corff hwn yn Cyngor yr Henoed.

Parhaodd y gwaith gyda chanolfannau

cymuned, yr ifainc, drama, Canolfannau

Cynghori a menywod. Roedd gan y Cyngor

Adran y Menywod yn delio a materion megis

hawliau menywod, pensiynau, budd-daliadau nawdd cymdeithasol,

a gofal cymunedol - yn ogystal ag un penderfyniad ar "ddefnydd arian cyhoeddus mewn perthynas a 'Hippies' a 'phobl y Blodau'".

(Adroddiad blynyddol 1968-69)



Gweithdy Menywod De Morgannwg.



## 90 AU

## Y NAWDEGAU

Mae 470 o grwpiau ac unigolion ledled Cymru o bob rhan o fywyd gwirfoddol yn aelodau o CCGC erbyn hyn. Mae un o bobl tri o bobl yn gwneud gwaith gwirfoddol erbyn hyn ac mae'r sector yn llwyddo i weithredu ar incwm blynyddol o £500m.

Mae'r dyfodol yn cynnig sawl sialens newydd megis y diwylliant contractio, gofal yn y gymuned a'r Loteri Cenedlaethol. Bwriad CCGC, o ran y rhain a materion eraill, yw cefnogi achos y sector wirfoddol, gan lobio ar ei rhan a chynorthwyo i greu partneriaethau gyda'r sectorau statudol a phreifat.

Er fod prif swyddfa'r Cyngor yng Nghaerffili o hyd, mae wedi agor swyddfeydd eraill yn y Canolbarth a Gogledd Cymru ac mae'n gweithredu polisi ddwyieithog. Mae'r gwaith o gyllido, hyfforddi a hybu grwpiau gwirfoddol ar lefel Cymru, Ewrop a Phrydain yn parhau er mwyn adeiladu sector wirfoddol gref ac annibynnol yng Nghymru.

## Y Saithdegau

Bu newidiadau yn strwythur y Cyngor yn ystod y

saithdegau. Daeth nifer o bwyllgorau'n

annibynnol, gan ailymddangos fel

Cyngor yr Anabl yng

**70** Nghymru, Cyngor Cenedlaethol yr Henoed yng Nghymru (Cyngor yr

Henoed), a Chyngor Gwasanaethau

Gwirfoddol yr Ifainc yng Nghymru.

Aildiffiniodd y Cyngor ei rôl ar gyfer y

dyfodol ac am y tro cyntaf penododd

swyddogion nad oeddynt yn rhai arbennigol i

"gydgyssylltu'n gyffredinol gyda'r mudiadau

gwirfoddol yng Ngogledd a De Cymru".

Arweiniodd y newid hefyd at lansio cyfres o fentrau llythrennedd a hyfforddiant, i bobl ifanc diwaith yn ogystal ag i'r rhai hyn.

## YR WYTHDEGAU

Ym 1982 dechreuwyd defnyddio'r enw Cyngor Gweithredu

Gwirfoddol Cymru yn lle Cyngor Gwasanaethau

Cymdeithasol Cymru, gan adlewyrchu'r ymrwymiad i "hybu,

cynorthwyo a hwyluso gwaith gwirfoddol a datblygiad

cymunedol yng Nghymru". Lanswyd gwybodaeth a

chyhoeddiadau newydd, a mentrau cyhoeddusrwydd a datblygu

cymunedol. Dechreuodd CCGC hefyd weinyddu'r Gronfa Gwaith

Gwirfoddol yng Nghymru.

Gwnaethpwyd mwy o waith i gefnogi elusennau yng Nghymru,

gan gynnwys rhoi cyngor ar hyfforddiant a chyllido yn ogystal a

chymorth gyda phrosiectau penodol megis 'Cymerwch Ofal', wedi'i

anelu at wella safon byw y tlawd a'r henoed. Dechreuodd y

Cyngor hefyd wneud gwaith ymchwil i fonitro effeithiau polisiau'r

llywodraeth leol a chenedlaethol ar y sector wirfoddol.

## 80 AU



All godi to Neuadd y Gweithwyr Cymparc wedi tân ym 1987.



# Y Flwyddyn mewn Ffocws

**Roedd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yn datlu'i benblwydd yn chwe deg ac yn gwneud mwy o waith cynrychioli mewn nifer o feysydd, yn arbennig y loteri cenedlaethol.**

**Mae'r adroddiad canlynol yn rhoi manylion y meysydd allweddol a achosodd bryder i elusennau a grwpiau gwirfoddol Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf, ac yn nodi pa gamau a gymerwyd.**

**Mae hefyd yn adolygu'r gwasanaethau rheolaidd a ddarparwyd i'r sector wirfoddol yng Nghymru.**

## Loteri Cenedlaethol

Y Loteri Cenedlaethol a'i effaith ar yr arian y mae elusennau yn ei dderbyn oedd prif destun ail hanner y flwyddyn ariannol.

Chwaraeodd CGGC rôl hanfodol yn cynrychioli'r elusennau - gan geisio:

- Hwyluso'r cyllathrebu rhwng Bwrdd Elusennau'r Loteri Cenedlaethol (NLCB) a'r sector wirfoddol;
- darparu gwybodaeth i grwpiau am y pum cronfa 'achos da';
- ymchwilio i effaith y Loteri ar faint mae pobl yn ei rofi i elusennau; ac egluro gwir effaith y Loteri ar elusennau i'r cyhoedd trwy'r cyfryngau.

Dangosodd gwaith ymchwil a gomislynwyd gan CGGC a Chyngor Cenedlaethol



June Churchman (chwith) a Linda Quinn - aelodau o bwyllgor Bwrdd Elusennau Cymru - gyda Tom Jones.

Mudiadau Gwirfoddol ym mis

Chwefror fod llawer o bobl yn credu fod elusennau'n elwa llawer mwy o'r loteri nag yr oeddynt mewn gwirionedd, a bod rhai yn prynu tocynnau loteri yn hytrach na rhoi i elusen.

Ym mis Tachwedd cynhaliodd CGGC ddiwmod gwybodaeth ar gyfer y sector ar y pum cronfa.

Cafodd swyddog datblygu cenedlaethol CGGC ei secondio i Fwrdd Elusennau'r Loteri Cenedlaethol a threfnodd CGGC bum diwrnod o ymgynghori ledled Cymru ar ran y Bwrdd. Bu hyn yn fodd i'r Bwrdd ymgynghori gydag elusennau ar ei ganllawiau drafft ar gyfer ariannu grwpiau gwirfoddol.

Mewn nifer o gyfweiliadau gyda'r cyfryngau pwysleisiodd CGGC y ffaiht mai rhwng 1c ac 11c o bob tocyn loteri punt fyddai'n dod i elusennau Cymru - ac anogodd bobl i barhau i gefnogi grwpiau lleol.

Mae CGGC hefyd wedi gwneud dau gais i Gronfa Mileniwm y Loteri ar gyfer

- cylleuster fideo-gynadleddau aml-bwynt i Gymru a Chymorth i neuaddau pentref Prydain - ar y cyd gydag Acre a'i chwaeludiadau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon;







## Cefnogaeth llywodraeth leol, a'r ad-drefnu

Er gwaetha'r ymdeimlad o dawelwch cyn storm yr ad-drefnu ym 1996, aeth CCGC ymlaen a'i waith yn egniol mewn dau faes:

- Sicrhau mwy o gymorth i'r sector wirfoddol a phartneriaeth well rhyngddi a llywodraeth leol.
- Annog grwpiau i ddog at ei gilydd yn ardaloedd y dau ar hugain o awdurdodau unedol newydd a gweithio gyda'r pwyllgorau trosglwyddo ar y trefniadau ar gyfer ariannu grwpiau gwirfoddol yn y dyfodol ac ar eu cyfraniad at ddarparu'r gwasanaethau. O ganlyniad mae cysylltiad wedi'i sefydlu rhwng y sector wirfoddol a bron pob un o'r pwyllgorau trosglwyddo.

Darparodd CCGC gyngor i bwyllgorau trosglwyddo hefyd ar weithio gyda'r sector wirfoddol, a chychwynnodd 'ymarfer tracio' i ddilyn hynt a helynt y grwpiau trwy gydol y broses o ad-drefnu.

Cyhoeddwyd sawl dogfen allweddol yn ogystal:

*Cael Hyd i'r Cyllid:* Arolwg 1992/3 ar ariannu gan awdurdodau lleol i fudiadau gwirfoddol Cymru - gwelwyd fod y cymorth a dderbynnir trwy law awdurdodau lleol wedi codi i £21.7 miliwn ond ei fod yn parhau i fod yn is na'r swm cyfatebol yn Lloegr.

*Ad-drefnu Llywodraeth Leol a'r Sector Wirfoddol* - diweddariad a *Gweithio Gyda'n Gilydd* yng Nghymru - diweddariad o'r crynodeb, *Anelu at Amcanion Cyffredin* - canllaw ar gyfer cydweithredu rhwng awdurdodau lleol a'r sector wirfoddol - a baratowyd gan CCGC, Cyngor Dosbarthau Cymru, Cynulliad Siroedd Cymru, y Swyddfa Gymreig a Bwrdd Rheoli Llywodraeth Leol. Caiff hwn ei anfon at aelodau'r awdurdodau cysgodol newydd.

O ganlyniad, mae chwarter yr awdurdodau newydd wedi ymrwymo i ddilyn model *Anelu at Amcanion Cyffredin*, ac mae chwarter arall wedi mynegi diddordeb ynddo.

## Gwirfoddoli

Yn sgil adfer grant y Swyddfa Gymreig, aeth CCGC yn ei flaen i benodi swyddog gwirfoddoli llawn-amser sydd wedi cychwyn erbyn hyn ar y gwaith o ddatblygu strategaeth wirfoddoli ar gyfer Cymru i weithredu argymhellion menter Make a Difference. Cadeirydd CCGC, Marjorie Dykins, sy'n cynrychioli Cymru yn y fenter.



Mae 'The Underdogs', grŵp gwirfoddol o fwy na phedwardeg o bobl ifanc o St Mellons, Caerdydd, a ymddangosodd yn *Rhwydwaith Cymru*, yn perfformio mewn digwyddiadau cymunedol a gwyliau. Cefnogir y grŵp gan *Cerdoriaeth Gymunedol Cymru*

## Y Llywodraeth ganol

Cychwynnodd y flwyddyn dan gysgod toriad o ddeg y cant yng ngrantiau'r Swyddfa Gymreig i CCGC a'r Gronfa Wirfoddoli yng Nghymru (gweler tud.8). Ond yn dilyn ymgyrchu brwd gyda'r Swyddfa Gymreig, fe adnewyddwyd y ddau grant.

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda gweinidogion a swyddogion y Swyddfa Gymreig a San Steffan ar amrywiaeth eang o bynciau o strategaeth wirfoddoli i arian gan Ewrop; o'r loteri i drosglwyddo grantiau cymdeithasol a chymunedol o'r Swyddfa Gymreig ac o'r cwangos i'r cyngorau lleol.

Cyhoeddodd CCGC *Ydyn Nhw'n Gwrando* - arolwg o sut mae'r llywodraeth wedi gweithredu ei astudiaeth o effeithiolrwydd. Dangosodd y bu gwelliant yng ngweinyddiad ac effeithiolrwydd cynlluniau grantiau.





## Ewrop

Bu 1994 yn flwyddyn o newidiadau pwysig yn y rhaglenni ariannu Ewropeaidd a rhoddodd CCGGC wybodaeth i'r sector am y datblygiadau. Cymeradwywyd y rhaglenni ar gyfer ardaloedd diwydiannol de Cymru a'r ardaloedd gwledig wedi cryn oedi, a diolch i lobio gan CCGGC roeddynt yn cynnwys mesurau penodol i ariannu datblygu cymunedol. Bu CCGGC hefyd yn cynrychioli'r sector ar y pwyllgorau newydd meinach yn y rhanbarthau hyn.

Yn dilyn trafodaethau gyda'n chwaer-gynghorau yn yr Alban a Lloegr, cafodd rhaglen Amcan 3 Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer hyfforddi pobl ddiwaith ei datganoli'n llwyr. Cafwyd ymgynghori eang cyn trefnu proses ymgaisio newydd wedi'i chynllunio ar gyfer mudiadau Cymreig ac ar gyfer targedu anghenion. Derbyniwyd ceisiadau gwerth dros £4 miliwn ac argymhellwyd y dylid rhoi arian i bedwar deg o fudiadau gwahanol.

Rhoddodd y sector wirfoddol ei hymateb i raglen ymgynghori'r Comisiwn Ewropeaidd ar bolisi cymdeithasol. Bu rhai newidiadau yn staff y tim Ewropeaidd hefyd a phenodwyd Swyddog Cronfa Gymdeithasol Ewrop newydd yng Nghaerffili a Swyddog Gweinyddol newydd yn y Trallwng. Deliodd y tim a dros 400 o ymholiadau ar ariannu, rhwydweithiau a lobio yn ystod y flwyddyn.

## Yr Iaith Gymraeg

Bydd darparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn dod yn fwyfwy pwysig wrth i ddisgwyliadau gynyddu yn sgil y Ddeddf Iaith. Fe allai mudiadau sy'n cael eu contractio i ddarparu gwasanaethau ar gyfer cynghorau lleol weld ei bod yn orfodol arnynt i gynnis gwasanaeth dwyieithog.

Er mwyn cynorthwyo grwpiau gwirfoddol yn y maes hwn mae CCGGC wedi penodi Swyddog Datblygu'r Iaith Gymraeg, gyda chymorth ariannol gan Fwrdd yr Iaith. Mae wrthi'n sefydlu prosiect i weithio gydag ugain o grwpiau i ddarparu polisiau iaith. Bydd hefyd yn paratoui canllawiau drafft ar bolisiau iaith ar gyfer y sector wirfoddol.

Cynhaliwyd dau ddiwrnod ymgynghori gyda'r sector a bydd paneli Gogledd a De Cymru'n cyfarfod yn fuan i edrych ar arferion da.

Bu'r ail Bafiliwn Gweithredu Gwirfoddol blynyddol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nglyn-nedd, a oedd yn cynnwys



dau ar bymtheg o grwpiau gwirfoddol, yn hyrwyddo gwaith y sector yng Nghymru. Agorwyd y Pafiliwn, a drefnwyd gan CCGGC a Chyngor Cymru i'r Anabl, gan Rhodri Morgan AS, a threfnwyd cyfres o ddigwyddiadau gan grwpiau fel Sefydliad y Merched, Cymdeithas Genedlaethol y Cynhalwyr a Phlant yng Nghymru.



## Iechyd

Dangosodd gwaith ymchwil CCGGC fod y Gwasanaeth Iechyd yn derbyn £7.50 o gyllid gan y sector wirfoddol am bob £1 y mae'n ei roi fel grantiau i grwpiau gwirfoddol.

Cyhoeddodd CCGGC *Partneriaid mewn Iechyd* ar y cyd gydag Awdurdodau Iechyd Cymru - gyda'r nod o ddangos sut mae'r newidiadau i'r gwasanaeth Iechyd yn ei gwneud yn bwysicach fyth fod awdurdodau Iechyd a grwpiau gwirfoddol yn cydweithio i ddarparu gofal Iechyd. Lansiwyd *Partneriaid mewn Iechyd* mewn cynhadledd waith a dosbarthwyd y canllaw a'r crynodeb ledled Cymru a thu hwnt. Mae rhai awdurdodau Iechyd eisoes wedi dechrau gweithredu'i argymhellion.

Rhodri Morgan gyda staff CCGGC yn y Pafiliwn Gweithredu Gwirfoddol.





## Cyllid ymddiriedolaethau

Yn dilyn y gynhadledd *Codi Pontydd* a gynhaliwyd gan CGGC - pan gyfarfu wyth ar hugain o ymddiriedolaethau Prydeinig â chynrychiolwyr y sector wirfoddol yng Nghymru yng Nghaerdydd, trefnwyd cyfarfod o grŵp newydd o elusennau Prydeinig yn Llundain o dan yr enw Grŵp Buddiannau Cymreig Cymdeithas y Sefydliadau Elusennol er mwyn edrych ar ffyrdd o ledaenu gwybodaeth am grwpiau gwirfoddol Cymru a chynyddu'r cysylltiad â hwy.

Mae CGGC yn amcangyfrif mai 1% yn unig o'r arian a dderbyniir gan grwpiau Cymreig sy'n dod o goffrau ymddiriedolaethau ac mae 'Grŵp Buddiannau Cymreig' Cymdeithas y Sefydliadau Elusennol yn ceisio newid y sefyllfa. Mae CGGC hefyd wedi ailgychwyn yr ymdrech i sefydlu cronfa ymddiriedolaeth yn arbennig ar gyfer grwpiau Cymreig - sefydlwyd grŵp llywio i edrych i'r mater. O ganlyniad mae rhai Sefydliadau Elusennol yn adolygu eu polisïau, a gallai hyn gynyddu lefel y cymorth a roddir i elusennau yng Nghymru.

## Gwasanaethau cyngori

Lansiodd CGGC adroddiad o'r enw *Gwasanaethau Cyngori Annibynnol yng Nghymru* mewn ymgais i gynyddu'r cymorth strategol a'r arian a roddir i'r maes hanfodol hwn sydd yn aml yn cael ei anwybyddu. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar y cyd gyda'r Canolfannau Cyngori, Shelter, Canolfan Gyfreithiol Caerdydd, Asiantaethau Cyngori cymunedol a chynghorau gwirfoddol sirol ledled Cymru.

Mae gwasanaethau o'r fath yn darparu cyngor annibynnol ar faterion megis dyledion, budd-daliadau a materion cyfreithiol i dros hanner miliwn o bobl yng Nghymru bob blwyddyn, ond maent yn aml yn dibynnu ar

ansicrwydd grantiau tymor byr, amrywiol.

Mae'r atebion a gynigiwyd i'r broblem yn cynnwys polisi ar y cyd gyda llywodraeth ganol a lleol fydd yn sicrhau fod lefel benodedig o wasanaethau ledled Cymru'n derbyn arian sicr.

## Gofal cymdeithasol

Cafodd adroddiad CGGC *Gofal Cymdeithasol - A Yw'n Gweithio?* gryn sylw gan y cyfryngau a bu'n destun trafod ymhlith cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol ledled Cymru. Ers hynny mae CGGC wedi parhau i roi cymorth i rwydwaith o grwpiau sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol. Mae wedi darparu hyfforddiant ar waith datblygu yn y maes hwn rhwng grwpiau cenedlaethol a chynghorau gwirfoddol sirol. Mae hefyd wedi cwblhau canllawiau ar gydweithredu a chydweithio rhwng y ddau grŵp.

Mae CGGC hefyd wedi datblygu prosiect peilot

gyda'r Swyddfa Gymreig i recriwtio pobl o'r gymuned ehangach fel 'aseswyr lleyg' i archwilio gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol.

Cafodd Swyddog Polisi CGGC ei secondio i'r Swyddfa Gymreig i adolygu'r cynllun grant Gofal Cymunedol Hyblyg.

## Dyfodol y sector

Bu llawer o drafod yn ystod y flwyddyn ar natur a dyfodol y sectorau elusennol a gwirfoddol ac mae CGGC wedi lansio ei agwedd bragmataidd ei hun at hyn.

Mae grŵp llywio o gynrychiolwyr y sector wirfoddol wedi cychwyn paratoi manifesto drafft ar ddyfodol y sector wirfoddol yng Nghymru, gan ofyn beth sydd gan grwpiau Cymru i'w ddweud amdanynt eu hunain, a beth maent am ei gael gan lywodraeth y dyfodol. Bwriedir cynnal nifer o gyfarfodydd ymgynghori.

Mae'n debygol y bydd llai o ansicrwydd ynghylch siap a maint y sector yn sgil llwyddiant cais CGGC a'i chwaer-fudiadau i gynnal gwaith ymchwil i'r sector ar ran y Swyddfa Ystadegol Ganolog.


## Gwasanaethau Cyngor

Canolbwyntiodd gwasanaethau cyngori CGGC unwaith eto ar ariannu, gan gynnwys arian gan Ewrop a'r Loteri Cenedlaethol. Deliwyd a rhagor na thri chant o ymholiadau cyffredinol am ariannu a llawer mwy am arian gan Ewrop.

Caiff cyngor CGGC ar ariannu ei gefnogi gan waith ymchwil manwl ar ffynonellau arian ar gyfer y sector wirfoddol, fel a nodir yn yr adranau eraill. Ymddiriedol â throsgant o ymholiadau ar faterion cyfreithiol hefyd.

Rhoddodd CGGC gymorth i rwydwaith o swyddogion trwyddedu awdurdodau lleol sy'n rhoi cyngor ar dwyll mewn elusennau, yn ogystal a thynnu sylw at y mater yn y cyfryngau.

Yn ôl y ffigyrau mewn cyhoeddiad newydd gan CGGC, *Fleithiau Ariannu*, a lansiwyd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol *Cyllido'r Dyfodol*, derbyniodd y 22,000 o grwpiau gwirfoddol yr amcangyfrifir sy'n bodoli yng Nghymru gyfanswm o oddeutu £600 miliwn mewn incwm ym 1992/93. Daeth oddeutu chwe deg y cant o hwn o roddion gwirfoddol - gan uniglion, cwmnïau ac ymddiriedolaethau, neu roddion mewn ewyllysiau - tra bod pedwar deg y cant wedi dod o ffynonellau cyhoeddus, llywodraeth ganol a lleol, cwngos, awdurdodau iechyd ac Ewrop. Bydd y Loteri Cenedlaethol ac ad-drefni llywodraeth lleol yn cael effaith ddofn ar batrymau ariannu traddodiadol.





## Hyfforddiant

Mae CCGC yn darparu gwasanaethau hyfforddi ac ymgynghori a rhaglen ddigwyddiadau lawn, yn ogystal â helpu trefnu digwyddiadau ar gyfer mudiadau gwirfoddol eraill.

Mae'r rhaglen hyfforddi'n cynnwys cyrsiau un-dydd ledled Cymru a chysiau preswyl byr dan ofal hyfforddwyr profiadol ar bynciau fel arian gan Ewrop, datblygu staff a chyfraith elusennau.

Lansiodd CCGC ei rhaglen genedlaethol ar gyfer hyfforddi ymddiriedolwyr, yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Cafodd y rhaglen, a anelir at y miloedd o ymddiriedolwyr yng Nghymru, ei rhedeg yn llwyddiannus trwy gydol yr hydref a'r gaef.

Cytunodd Charity Projects a thri Chyngor Hyfforddiant a Menter (TECau) i ariannu consortiwm hyfforddi ar gyfer Gogledd, Gorllewin a Chanolbarth Cymru. Bydd y consortiwm yn cwrrd ag anghenion grwpiau gwirfoddol bach mewn ardaloedd gwledig ac rydym yn gwneud cais am arian cyfatebol gan Ewrop.

Roedd y digwyddiadau pwysig eraill a drefnwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys: sioe ffasiynau iwbili diamwnt CCGC, ymgynghori ar y loteri, cynhadledd cyswllt Cymreig y Sefydliad Cymorth i Elusennau, hyfforddiant am ddim ar godi arian gyda Sefydliad Templeton, Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol CCGC ar Ariannu yn y Dyfodol, a chynhadledd a drefnwyd ar ran CADW, asiantaeth henebion Cymru. Bu CCGC hefyd yn gyfrifol am gyd-gysylltu'r Rhwydwaith Cymorth Hyfforddiant, dosbarthu

gwybodaeth ar Gymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol, a chynrychioli Cymru mewn trafodaethau ar greu Mudiad Hyfforddi Diwydiant ar gyfer y sector.

## Gwybodaeth

Ail-lansiwyd cylchgrawn misol CCGC, *Rhwydwaith Cymru*, gyda dyluniad ac arddull newydd sbon ym mis Ionawr 1995. Caiff ei ddylunio'n fewnol a'i gynhyrchu i safon uchel dros ben. Nod *Rhwydwaith Cymru* yw darparu'r newyddion a'r farn ddiweddaraf am y sector wirfoddol yng Nghymru ac mae'r gwerthiant a nifer yr hysbysebion wedi cynyddu. Llwyddwyd unwaith eto i gynhyrchu'r newyddlen ddeu-fisol, ddwyieithog ar gyfer saith cyngor gwirfoddol sirol; y rhifynnau wythnosol o wasanaeth newyddion neu 'ymwybyddiaeth gyfredol' CCGC; a diweddarau'r aflenni gwybodaeth.

Cynhyrchwyd un ar bymtheg o gyhoeddiadau, pedwar ar ddeg ohonynt yn ddwyieithog, a chyflwynwyd arddull fewnol arbennig.

Cafodd y cyhoeddiadau eu marchnata a'u dosbarthu am ddim neu eu gwerthu, a chynhyrchwyd deunydd ar gyfer arddangosfeydd yn ogystal.

Paratowyd tri deg a phump o ddatganiadau i'r wasg a bu cynnydd eto yn lefel y sylw a gafwyd gan y cyfryngau. Rhoddyd sylw arbennig o dda i faterion yn ymwneud â'r Loteri Cenedlaethol.

Cafodd gwasanaeth llyfrgell a gwybodaeth CCGC ei gynnal ac atebwyd 1,167 o ymholiadau ynghylch pob agwedd ar weithgaredd gwirfoddol.

## Effeithiolrwydd mewnol

Cyflwynodd CCGC categorïau aelodaeth a chostau newydd a diweddarau i gyfansoddiad - parhaodd nifer yr aelodau i gynyddu. Cychwynwyd ar waith ymchwil i'r systemau cyfathrebu gyda'r aelodau a'r ddelwedd gorfforaethol, a chynhaliwyd a chymeradwywyd arolwg o dechnoleg gwybodaeth. Paratowyd a chymeradwywyd llawlyfr personel a pholisi iechyd a diogelwch yn ogystal.

## Cronfa Wirfoddoli yng Nghymru ac Ymddiriedolaeth Elusennol Esmee Fairbairn

Derbyniodd 47 o grwpiau gwirfoddol grantiau yn amrywio o ychydig o gannoedd i bron i £20,000 gan y Cronfa Wirfoddoli yng Nghymru. Ariannwyd cyfleoedd newydd i fwy na 1,600 o wirfoddolwyr gyda chymorth y grantiau hyn.

Cafodd penderfyniad y Swyddfa Cymreig i dorri ei nawdd i'r cynllun o 10% ei wyrdroi ac erbyn diwedd y flwyddyn roedd £268,769 wedi ei roi i grwpiau ledled Cymru.

Mae CCGC hefyd yn gweinyddu grantiau bach ar ran Ymddiriedolaeth Elusennol Esmee Fairbairn. Rhoddyd 54 o grantiau, cyfanswm o £27,397, i grwpiau gwirfoddol ym 1994/95.

Aelod o fforwm defnyddwyr gwasanaeth pobl hyn mewn sesiwn 'dod i nabod ei gilydd' a arweinwyd gan Swyddog Hyfforddi CCGC.







# Dathliadau Jiwbili Diamwnt

## Jiwbili Diamwnt Cinio penblwydd

Daeth dillad ffasiynol am gyn lleied â £3.50 â thipyn o sglein i ddathliadau jiwbili diamwnt CGGC yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd ym mis Mehefin.

Trefnwyd y dillad ar gyfer y sioe gan siopau naw elusen sy'n gweithredu yng Nghymru.

Dyma oedd uchafbwynt y parti penblwydd chwe deg oed a oedd hefyd yn cynnwys y siaradwr gwâdd, Roy Noble, cinio bwffe a gwobrwyon gan y Gronfa Wirfoddoli yng Nghymru.

Arweinydd y sioe oedd un o gyflwynwyr Radio Cymru, Frank Hennessy.

Trefnwyd y digwyddiad i gydfynd ag Wythnos Wirfoddoli Prydain ac roedd yn ceisio tynnu sylw at waith y miloedd o wirfoddolwyr sy'n cyfrannu at gymaint o agweddau o fywyd yng Nghymru.

Roedd hefyd yn dathlu cyfraniad CGGC i fyd gwirfoddoli dros y trigain mlynedd diwethaf.

Dechreuodd trwy weithio gyda chlybion dynion cymoedd y de yn ystod dirwasgiad y tridegaw ond

mae'r maes wedi ei weddnewid ers hynny.

Yn ogystal a chynnig adloniant difyr, roedd y sioe hefyd yn tynnu sylw at faint, dyfnder ac ansawdd y "diwydiant" siopau elusen yng Nghymru, sy'n codi millynau o bunnoedd bob blwyddyn.



(uchod ac isod)  
Gwesteion yn y jiwbili.



## Dathliadau Jiwbili

Arglwydd Faer Caerdydd, Ricky Ormonde ac Arglwyddes Faeres Valerie Swinburne, yn mhlas y Maer - dyna'r safle moethus ar gyfer dathliadau jiwbili CGGC ym Mawrth 1995.

Prif Weithredwr Cyngor Sir Morgannwg Ganol, Huw Thomas gyda Roger Jarman, ysgrifenydd y Swyddfa Gymreig yn talu teyrnged i staff ac aelodau pwyllgor. Cydnabyddwyd hefyd rôl a nerth y sector wirfoddol yn y 90au.



Sioe fasiwn yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd (uchod).

Roy Noble, siaradwr gwâdd.



# Uchelbwyntiau'r Flwyddyn

## 94

### Ebrill

◆ Y Comisiwn Elusennau'n cyhoeddi canllawiau caeth ar ymgyrchu a gweithgareddau gwleidyddol o fewn elusennau.

◆ CGGC yn lansio *Gwasanaethau Cyngtori yng Nghymru* mewn ymgais i sefydlu strategaeth ariannu ar gyfer gwasanaethau cyngtori. Mae hefyd yn lobio'r Senedd i gynnwys arian rhyng-gyfnodol ar gyfer grwpiau yn Ngymru yn y mesur Llywodraeth Leol (Cymru).

- ◆ Y Mesur Hawliau Sifil (Personau Anabl) yn methu yn Nhŷ'r Cyffredin ar ôl cyflwyno nifer o newidiadau.
- ◆ CGGC yn cynnal cyfarfodydd gyda gweinidog y Swyddfa Gymreig, Gwilym Jones, yn dilyn toriad o 10% yn ei nawdd a fyddai'n effeithio ar gyllideb CGGC a'r Gronfa Wirfoddoli yng Nghymru.

### Mai

- ◆ Cadeirydd CGGC, Marjorie Dykins, yn ymuno â thim *Make a Difference* sy'n cynnal arolwg o wirfoddoli ym Mhrydain.
- ◆ Cylchgrawn *The Big Issue*, a werthir gan y digartref ar gyfer y digartref, yn cael ei werthu ar strydoedd Caerdydd.
- ◆ Oxfam Cymru'n anfon cymorth yn uniongyrchol i Rwanda am y tro cyntaf gyda rhoddion pobl Cymru.

### Mehfin

- ◆ CGGC yn lansio'i ddathliadau *jwbili diamwnt 1994* gyda "sioe ffasiynau elusenol" yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd a golwg yn ôl ar y chwe deg o flynyddoedd ers ei sefydlu ym 1934.
- ◆ CGGC yn cael ei orfodi i roi'r gorau i'w gynlluniau i hyrwyddo Wythnos Gwirfoddolwyr Prydain yng Nghymru oherwydd toriadau ariannol.

- ◆ Y Tywysog Philip yn ymuno â'r drafodaeth ar "elusennau" gan hawlio nad oes y fath beth â thlodi absoliwt ym Mhrydain bellach, gan ddileu'r angen am elusen yn yr ystyr draddodiadol.
- ◆ Adroddiad gan Ganolfan Wirfoddoli Prydain yn haeru fod "gwirfoddoli am dâl" yn cynyddu.
- ◆ Camelot yn cael ei benodi i redeg y Loteri Cenedlaethol. Mae'n addo rhoi 25-30% o'r arian a dderbynnir i bump 'achos da'.



Mike Palmer, swyddog Gogledd Cymru CGGC adeg Eisteddfod Genedlaethol Neddi a'r Cyffuniau.

### Gorffennaf

- ◆ Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) yn cael y Fendith Frenhinol.
- ◆ Gweithgor dadreoli'r sector wirfoddoli yn cyhoeddi adroddiad wedi'i anelu at wneud bywyd yn haws i elusennau bach.
- ◆ Pobl anabl, gan gynnwys ymgyrchwyr o Gymru, yn lobio'r Senedd ar hawliau sifil.
- ◆ CGGC yn trafod datganoli Amcan 3 Cronfa Gymdeithasol Ewropeaidd i Gymru. Sicrhau 9% o arian sector wirfoddol Prydain.

### Awst

- ◆ Dau ar bymtheg o grwpiau gwirfoddol yn arddangos yn y Pafiliwn Gweithredu Gwirfoddol yn Eisteddfod Glyn-neddi, a drefnwyd gan CGGC a Chyngor Cymru i'r Anabl.
- ◆ Penodi deuddeg o ymddiriedolwyr i Fwrdd Elusennau'r Loteri Cenedlaethol, gyda thri ohonynt o Gymru. CGGC yn rhybuddio fod posibilrwydd na fydd yr arian yn cyrraedd Cymru hyd ddechrau 1996.
- ◆ CGGC yn lansio rhaglen hyfforddi genedlaethol ar gyfer ymddiriedolwyr.

### Medi

- ◆ CGGC yn lansio ffigyrau yn ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol *Cyllido'r Dyfodol*, yn dangos i'r sector wirfoddol yng Nghymru gynhyrchu incwm o bron i £600 miliwn ym 1992/93, gyda dros ei hanner yn dod o roddion unigol. Cytuno ar newidiadau yn yr aelodaeth.
  - ◆ Y BBC yn cyhoeddi cynlluniau ar gyfer llinell gymorth 24 awr newydd.
  - ◆ Ymchwil gan y Sefydliad Cymorth i Elusennau (CAF) yn honni mai yng Nghymru y mae'r nifer uchaf y bobl sy'n rhoi i elusennau.
  - ◆ Ymgynghori ynghylch trosglwyddo arian BDCW i lywodraeth leol.
- ### Hydref
- ◆ Y Swyddfa Gymreig yn cyhoeddi ei fod yn adnewyddu'r 10% a oedd wedi'i dorri o gyllideb CGGC a'r Gronfa Wirfoddoli yng Nghymru. CGGC yn hysbysebu am Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr.
  - ◆ Tri grŵp Cymreig yn ennill cyfanswm o £44,376 o'r cynllun Make a Difference.



Sioe ffasiwn y jwbili.





- ◆ CAF yn lansio'i Gerdyn Elusen ar gyfer rhoddion treth-ffeithiol.
- ◆ CGGC yn lansio'i *broiect aseswyr lleyg* sy'n ceisio annog pobl i wirfoddoli i fod yn aseswyr annibynnol gyda thimau'r Swyddfa Gymreig i archwilio gwasanaethau cymdeithasol.
- ◆ Deddf Cyfiawnder Troseddol yn cyfyngu ar hawl pobl i brotestio.

## Tachwedd

- ◆ Prydain yng nghrafangau'r Loteri Cenedlaethol. CGGC yn ymgychu i sicrhau fod cymaint â phosibl o'r arian yn cyrraedd grwpiau Cymreig, ac yn annog pobl i barhau i roi'n uniongyrchol i elusennau hefyd.
- ◆ CGGC yn cynnal diwrnod briffio yn Llandrindod ar y Loteri Cenedlaethol ar gyfer grwpiau gwirfoddol, gyda chynrychiolwyr o'r pum cronfa 'achos da'.

## Rhagfyr

- ◆ Swyddog Datblygu'r Iaith Gymraeg CGGC yn sefydlu prosiect i baratoi canllawiau ar gyfer y sector wirfoddol ar gynlluniau Cymraeg. Cychwyn ar y gwaith o ddewis pum grŵp peilot i gychwyn ar y prosiect.
- ◆ Yr Ysgrifennydd Gwladol, Michael Howard, fydd yn penderfynu ar enillydd y ceisiadau am ddarparu Llinell Gymorth Genedlaethol i Wirfoddolwyr.
  - ◆ Cynnal rownd ymgeisio gyntaf Amcan 3 Cronfa Gymdeithasol Ewropeaidd ar gyfer Cymru'n unig.

# 95

## Ionawr

- ◆ Cymeradwyo rhaglenni ariannu Ewropeaidd ar gyfer ardaloedd gwledig Cymru ac ardaloedd diwydiannol y de o'r diwedd (blwyddyn yn hwyr).
- ◆ Llinell gymorth gwirfoddoli Prydain i'w lleoli yn yr Alban.
- ◆ Y Swyddfa Gymreig yn penderfynu torri cyllideb Cyngor Cefn Gwlad Cymru o £3.3 miliwn ym 1995/96 - gan arwain i rybuddion y gallai hyn olygu llai o grantiau ar gyfer grwpiau amgylcheddol gwirfoddol.
- ◆ Mwy o brotestiadau lleol yn erbyn allforio llo.

## Chwefror

- ◆ Compassion in World Farming yn trefnu protestiadau ym mis Chwefror.
- ◆ Bwrdd Elusennau'r Loteri Cenedlaethol yn lansio'i gynlluniau drafft ar gyfer dosbarthu arian i elusennau, a Chymru'n cychwyn ar ei seminarau rhanbarthol gyda grwpiau gwirfoddol.


## Mawrth

- ◆ Rheoliadau ar godi arian yn dod i rym o dan Ran II y Ddeddf Elusennau. Gweithwyr codi arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol.



Sioe fasiwn y Jiwbill.

- ◆ Mesur y Cynhalwyr (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau) i roi hawliau i gynhalwyr yn llwyddo yn ei ail ddarlleniad gyda chefnogaeth y llywodraeth.
- ◆ Dyddiad cau'r Swyddfa Gymreig ar dderbyn sylwadau ar yr argymhelliaid i ddiddymu'r Rhaglen Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol, Neuaddau Pentref a Chanollannau Cymuned.
- ◆ 40 o fudiadau'n cael eu cymeradwyo i dderbyn dros £2 filiwn o Gronfa Gymdeithasol Ewrop.
- ◆ CGGC yn gwneud cais am arian o Gronfa'r Fleniwm ar gyfer neuaddau pentref Prydain, ac ar gyfer cyswllt fideo aml-bwynt i Cymru.
- ◆ Y Llywodraeth yn lansio rheoliadau cyfrifon at ddiben ymgynghori (Rhan IV y Ddeddf Elusennau), a'r Comisiwn Elusennau'n cyhoeddi arferion cymeradwy newydd (SORP II).
- ◆ Pobl anabl ledled y wlad - gan gynnwys Cynghrair De Morgannwg dros yr Anabl - yn protestio dros eu hawliau wrth i ddau fesur dros yr anabl fynd gerbron y Senedd.



Mae tim *Make a Difference* yn anelu at roi gwirfoddoli ar y map.



# Cyfrifon

## Y fantolen ar 31 Mawrth 1995

### Asedau sefydlog

	1995	1994
Asedau sylweddol	-	-
Eiddo rhydd-ddaliad	340,000	340,000
Cerbydau	7,469	13,469
	<u>347,469</u>	<u>353,469</u>

### Asedau cyfredol

	1995	1994
Buddsodiadau	120,652	120,652
Dyledwyr a rhagdaliadau	37,327	22,058
Arian parod yn y banc	232,898	152,006
Arian parod mewn llaw	122	124
	<u>390,999</u>	<u>294,840</u>

### Credydwyr

	1995	1994
Symiau dyledus o fewn blwyddyn	242,361	165,937
Asedau cyfredol net	148,638	128,903
Asedau llai rhwymedigaethau cyfredol	496,107	482,372

### Credydwyr

	1995	1994
Symiau dyledus ar ôl mwy na blwyddyn	-	3,982
Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau	75,000	65,000
	<u>421,107</u>	<u>413,390</u>

### Cronfeydd

	1995	1994
Cyllid cronedi	198,605	190,888
Cronfeydd adbrisio	222,502	222,502
	<u>421,107</u>	<u>413,390</u>

## Cyfrif incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 1995

### Incwm

	1995	1994
<b>Grantiau at ddibenion cyffredinol</b>		
Y Swyddfa Gymreig	364,728	378,532
Sefydliad Cymorth i Elusennau	48,832	48,344
Cronfa Gymdeithasol Ewrop - Cyflogaeth	7,000	9,345
Sefydliad Allen Lane	-	1,000
Ymddiriedolaeth Carnegie	2,500	-
Sefydliad Gulbenkian - (Lisbon)	5,000	-
	<u>428,060</u>	<u>437,221</u>
<b>Grantiau at ddibenion penodol</b>		
Y Swyddfa Gymreig - Grant tuag at y Gymraeg	21,972	4,750
Wythnos Wirfoddolwyr	-	4,786
Morgannwg Ganol TEC		
Hyfforddiant	3,323	-
	<u>25,295</u>	<u>9,536</u>

### Incwm arall

	1995	1994
Gwariant a adenillwyd ac incwm amrywiol	131,217	108,252
Incwm buddsoddi ac o'r banc (gros)	22,197	21,331
Tanysgrifiadau a chyfraniadau	6,087	5,432
	<u>159,501</u>	<u>135,015</u>
Cronfa Wirfoddoli yng Nghymru	226,501	221,000
Incwm gweithredol	839,357	802,772

## Incwm - Ffynhonnell yr arian







## Cyfrif incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn yn diweddau 31 Mawrth 1995

### Incwm gweithredol, a ddygwyd ymlaen

1995	1994
839,357	802,772

### Gwariant

#### Costau gweinyddol

Cyflogau a chostau staff	366,357	343,839
Hyfforddiant staff	7,792	4,947
Teithio a chynhaliadau	30,498	24,765
Lesio a chynnal a chadw offer	9,493	14,375
Yswiriant	1,327	998
Argraffu, papur a deunyddiau	20,159	19,333
Post a ffôn	29,598	29,779
Cyhoeddiadau a hysbysebu	25,499	19,372
Cynadleddau, cyfarfodydd a chysuriau hyfforddi	34,248	34,900
Treuliau amrywiol	2,360	1,384
Tâl i archwilywyr cyfrifon	3,600	3,500
Costau cyfrifiadurol	13,106	4,848
Costau ymgynghorwyr	16,971	15,594
Car - dibrisiant a cholled	6,000	6,500
Costau cyfieithu	-	4,318
Costau'r banc	1,417	729
<b>568,425</b>	<b>529,191</b>	

### Costau adeiladau

Rhenti a threthi	13,709	13,611
Yswiriant	1,327	997
Golau a gwres	7,268	10,134
Glanhau a chynnal a chadw	3,364	3,008
Darpariaeth at gynnal yr adeilad	10,000	15,000
<b>35,668</b>	<b>42,750</b>	

### Gwariant ar asedau sefydlog

Celfi a chyfarpar swyddfa	2,946	8,888
Gwirfoddoli yng Nghymru	226,501	221,000
Cyfanswm gwariant	<b>833,540</b>	<b>801,829</b>
Gwarged gweithredol	5,817	943
Gwarged ar werthu asedau	1,900	-
<b>7,717</b>	<b>943</b>	

## Gwariant - Lle mae'r arian yn mynd

### Gwarged gweithredol



### Asedau sefydlog



### Costau gweinyddol



### Adeiladau



### Costau staff



### Gwirfoddoli yng Nghymru



## Polisiau cadw cyfrifon

- Darparwyd y cyfrifon o dan y confensiwn costau hanesyddol wedi newidiadau yn sgil ad-brisio Eiddo Rhydd-ddaliad.
- Cynhwysir llog y banc fel incwm cronedig. Cynhwysir y cyfraniadau pan y'u derbynir. Cynhwysir grantiau yn y flwyddyn briodol.
- Ni wnaed cyfrif am stociau o gyhoeddiadau neu bapur.
- Codir ar raddfa o 33% o gost y car am ddibrisiant.
- Codir am gostau rhentu dan gytundebau lesio yn y Cyfrif Elw a Cholled am y flwyddyn briodol.

Mae set gyflawn o'r adroddiadau a'r cyfrifon ar gael gan:  
Mr D Morris, Ysgrifennydd y Cwmni,  
CGGC,  
Llys Ifor, Heol Crescent,  
Caerffili,  
Morgannwg Ganol CF8 1XL  
ffôn 01222 869224.

At aelodau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Ym marn archwilywyr y cyfrifon, Zeidman & Davis, mae'r crynodeb o'r cyfrifon yn y ddogfen hon yn gyson â'r cyfrifon llawn am yr un flwyddyn.

Roedd adroddiad yr archwilywyr ar y cyfrifon llawn yn ddiadmod.

*Zeidman & Davis*

Zeidman & Davis  
Cyfrifwyr Ardystiedig  
Archwilywyr Cyfrifon Cofrestredig  
Tŷ Lawrence  
Caerffili  
Morgannwg Ganol



## FFRAMWAITH Y PWYLLGOR

### Pwyllgor Gweithredol

Cadeirydd: Marjorie Dykins

**Pwyllgor Ewropeaidd**  
Cadeirydd: Syr Donald Walters

**Pwyllgor CSE**  
Cadeirydd: Hywel Evans  
tan fis Chwefror 1995

**Pwyllgor y Gronfa Wirfoddoli yng Nghymru**  
Cadeirydd: Alistair Wood

**Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol**  
Cadeirydd: W P Kitson

**Pwyllgor Cyngor Polisi (De a Dwyrain)**  
Cadeirydd: Yr Athro Maurice Broady

**NEWPOL Pwyllgor Cyngor Polisi (Gogledd a Gorllewin)**  
Cadeirydd: Alistair Wood

## Pwyllgor Gweithredol

Llywydd

Iarll Lisburne

Trysorydd Mygedol

Mr W P Kitson

Cyfreithwyr Mygedol

Messrs Phillips & Buck

Cadeirydd

Mrs Marjorie Dykins

Is-Gadeirydd

Ms Jane Hutt

Dr N Ahmad

Mrs Pat Bowen

Yr Athro Maurice Broady

Lt Col David Cox, CVO, MBE

Mrs Ceinwen Davies

Ms Anmarie Dixon-Barrow

Mr John Ashton Edwards, OBE

Mr Stuart Etherington

Mr Hywel V Evans (tan fis Chwefror 1995)

Ms S Meryl Evans

Mr Phil Jarrold

Mr John R Jones

Mr Drew Reith

Ms Jenny Render

Mr John Payne

Mr D Marc Phillips (tan fis Hydref 1994)

Mr Ken Savage

Mr Robert Taylor

Mrs Margaret Thorne, OBE, DL

Mr P K Verma, JP

Syr Donald Walters

Mr Alistair Wood, MBE

## Aseswyr ar ran y Pwyllgor Gwaith

Mr Alan Thornton, Welsh Office

Mr David G Evans, Welsh Office

## Archwilwyr Cyfrifon

Messrs Zeidman & Davis

## Bancwyr

National Westminster Bank Plc



Michael Palmer



Sue Thomas



Peter Bryant



Ruth Marks



Dewi Llwyd Evans

## Staff y Cyngor

### Mawrth 1994/95

Cyfarwyddwr

Cynorthwydd Personol i'r Cyfarwyddwr

Ysgrifennydd y Cwmni / Swyddog Cyllid

Cynorthwy-ydd Cyllid

Rheolwraig Gwybodaeth ac Ymchwil

Cynorthwy-ydd Gwybodaeth

Swyddog y Wasg a Chyhoeddiadau

Swyddog Hyfforddi a Chynadleddau

Swyddog Datblygu Cenedlaethol

Swyddog Polisi

Swyddog Polisi wedi'i seconddio o Ionawr - Mawrth 1995)

Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr (o fis Ionawr 1995)

Swyddog Cyngor Cyllido

Gweinyddydd y Gronfa

Swyddog Ewropeaidd

Swyddog Cronfa Gymdeithasol Ewrop (tan fis Awst 1994)

(o fis Medi 1994)

Gweinyddydd y Swyddfa

(tan fis Hydref 1994)

(o fis Ionawr 1995)

Swyddog Gogledd, Canolbarth a Gorllewin Cymru

Gweinyddydd Cynorthwyol

(o fis Mehefin 1994)

Swyddog Datblygu'r Iaith Gymraeg (o fis Rhagfyr 1994)

Goruchwylydd y Swyddfa

Cynorthwydd Clerigol a

Swyddog Iechyd a Diogelwch

Cynorthwy-ydd Clerigol

Porthor

Glanhawraig y Swyddfa

Graham Benfield

Jan Bish

Douglas Morris

Vida Davies

Lynda Garfield

Ellir Daniel

Penny Taylor

Ruth Marks

Peter Bryant

Lindsey Williams

Simon Boex

Sue Pickavance

Margaret Bond

Stan Salter

Dewi Llwyd Evans

Helen McLaughlin

Sarah Stephens

Lyn Lawton

Ingela Mann

Michael Palmer

Sue Thomas

Simon Thomas

Diane Roberts

Wendy Bidgway

Kathryn Thomas

Ron Pask

Ann Greenway

Dymuna CGGC ddiolch i'r mudiadau canlynol am eu cefnogaeth:

\* Y Swyddfa Gymreig

\* Cyngor Dinas Caerdydd

\* Cyngor Sir De Morgannwg

\* Ymddiriedolaeth Elusenol Esmee Fairbairn

\* Sefydliad Calouste Gulbenkian

\* Ymddiriedolaeth Carnegie ym Mhrydain

\* Sefydliad Lankely

\* EC Morgannwg Ganol

\* Ymddiriedolaeth Tudor